**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** **6ed IONAWR 2015**

# RHAGLEN

## DATGAN BUDDIANNAU

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

## 2. EITEMAU ER GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## 3. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## 4. CYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Cymeradwyo argymhellion Cyllideb Flynyddol 2016/17 (copi'n amgaeëdig) y Pwyllgor Strategol a Gweithredol i'w cyflwyno i Gyfarfod Arbennig y Cyngor i ddilyn y cyfarfod hwn ac i argymell praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/2017.

**[Atgoffir yr Aelodau y medrent, ar unrhyw adeg cyn y cyfarfod, ofyn am wybodaeth fanylach ar y ffigurau neu unrhyw gwestiynau ar yr adroddiad uchod, neu drafod unrhyw feysydd o bryder gyda Chlerc y Dref, y Swyddog Cyllid neu Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol / Pwyllgor Strategol a Gweithredol].**

## 5. ADRODDIAD CYNNYDD - SWYDDFA

Derbyn adroddiad cynnydd llafar cyfrinachol.

## 6. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.